CYNGOR CYMUNED BETWS

2009 05 Mai AGM Cofnodion

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Cymuned y Betws, yn Festri Capel Newydd, y Betws ar Ddydd Mercher 13eg 0 Fai 2009, am 6.20 o'r gloch.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwr Annette Price (Cadeiryddes), Henadur Arnallt James, Y Cynghorwyr Betsan Jones, Carwyn James, Anne Sizmur, June Gunter, Loreen Lewis, Menna Roberts, Anthony Richards a Catherine Smith.

1.YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Maldwyn John a Richard Howell.

2 CADARNHAU A LLOFNODI COFNODION Y CYFARFOD
BLYNYDDOL A GYNHALIWYD AR 14eg 0 FAI 2008.
Cadarnhaodd y Cynghorwr June Gunter ac eiliodd y Cynghorwr Betsan Jones fod cofnodion y cyfarfod blynyddol a gynhaliwyd ar 14eg 0 Fai 2008 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Gadeiryddes.

3 ANERCHIAD Y GADEIRYDDES.
Cyflwynodd y Gadeiryddes, y Cynghorwr Annette Price ei hadroddiad i'r Cynghorwyr, gan roi diolch i'r Is-gadeiryddes, y Cynghorwyr a'r Clerc am ei chefnogaeth dros y flwyddyn. Fe ddiweddarodd y Gadeiryddes y Cynghorwyr ar wahanol ddigwyddiadau mae hi wedi bod yn bresennol dros y flwyddyn ddiwethaf yn ei ral fel Cadeiryddes.
Gorffennodd y Gadeiryddes gan ofyn i'r Cynghorwyr ysgrifennu lawr 'beth mae bod yn Gynghorwr Cymuned yn golygu iddynt', wedyn fe ddarllenodd y Gadeiryddes yr ymatebion i'r Cynghorwyr. Roedd hi am wneud yn sicr fod gan y Cynghorwyr yr un diddordebau yn eu meddyliau.

4 ADRODDIAD Y CLERC.
Rhoddwyd manylion byr gan y Clerc am waith a chyflawniadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn 2008/2009.

1. INCWM/GWARIANT
Rhoddodd y Clerc amlinelliad byr 0 fater ariannol y Cyngor:
Incwm - Archebiant a dderbyniwyd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin am 2008/2009 £14,000 - ad-daliad TAW £106.79- 1I0g Y Banc £383.65- cynnal a chadw'r Ilwybrau £2,224.80.

2. CEISIADAU CYNLLUNIO.
Roedd 24 cais wedi'u derbyn yn 2008/2009 gyda 17 wedi'u cwblhau. Mae hyn yn ostyngiad 0 6 cais i gymhari a blwyddyn ddiwethaf.

3. RHODDION.
Roedd 22 mudiad, Capel Newydd ac Eglwys Dewi Sant wedi cael rhoddion 0 £2,589.75,codiad 0 £311.49 i gymhari a blwyddyn ddiwethaf.

4. PERSONEL.
Yn dilyn Etholiad y Cyngor Cymuned yn 2008, mae 3 Cynghorwyr newydd wedi dechrau gyda'r Cyngor Cymuned yn May 2008, y Cynghorwyr Anthony Richards, Maldwyn John a Catherine Smith. Roedd y Cynghorwr Audrey Jones wedi ymddiswyddo o'r Cyngor Cymuned ac fe gafodd y Cynghorwr Anne Sizmur eu cyfethol ar y Cyngor Cymuned.

5. RHAGOLWG DROS Y FLWYDDYN DDIWETHAF.
•Mae'r Cyngor Cymuned wedi cael gwobr am yr Ardd synhwyraidd a choffa'r Betws.

•Mae'r Cyngor Cymuned wedi prynu meinciau a bin i gael rhoi 0 fewn Betws.
•Mae'r Cyngor Cymuned hefyd wedi prynu bwrdd picnic/mainc i Ysgol Gynradd y Betw5.

6. DIGWYDDIADAU'R DYFODOL.
Y brlf eitemau, fydd yn cymryd llawer 0 amser y Cyngor dros y flwyddyn nesaf yw: -
•Materion cyfredol ynglyn a'r tir ger Heol Y Felin, Betws.
•Edrych mewn i wahanol gronfeydd i wella Lie Chwarae Heol y Felin a Treforis.
Gorffennodd y Clerc gan rai diolch i'r Gadeiryddes a'r Cynghorwyr am eu cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf.

5. PENODI CADEIRYDD/CADEIRYDDES
Cynigiodd y Cynghorwr Carwyn James ac eiliodd y Cynghorwr Loreen Lewis fod y Cynghorwr Betsan Jones yn gweithredu fel Cadeiryddes am yn flwyddyn 2009/2010.
Cytunodd y Cynghorwyr. PENDERFYNWYD bod y Cynghorwr Betsan Jones yn Gadeiryddes am 2009/2010.
Gwnaeth ddatganiad a llofnododd y 'Datganiad wrth Dderbyn Swydd.'

6. PENODIIS-GADEIRYDD/IS-GADEIRYDD.
Cynigiodd y Cynghorwr Carwyn James ac eiliodd y Cynghorwr June Gunter fod y Cynghorwr Anne Sizmur yn gweithredu fel Is¬gadeiryddes am y flwyddyn 2009/2010. Cytunodd y Cynghorwyr. PENDERFYNWYD bod y Cynghorwr Anne Sizmur yn Is-gadeiryddes am 2009/2010.
Gwnaeth ddatganiad a llofnododd y 'Datganiad wrth Dderbyn Swydd.'

7. PENODI IS BWYLLGORAU.
l.CYNLLUNIO.
Cynigwyd ac eiliwyd bod y Gadeiryddes, yr Is Gadeiryddes, y Cynghorwyr June Gunter, Catherine Smith a Loreen Lewis yn cael eu hethol ar yr Is-bwyllgor Cynllunio.
PENDERFYNWYD felly.

2. CYLLID.
Cynigwyd ac eiliwyd bod y Cynghorwyr Carwyn James, C.M.Annette Price, Richard Howell ac Anthony Richards yn cael eu hethol ar yr Is-bwyllgor Cyllid.
PENDERFYNWYD felly.

3. BETWS YN El BLODAU.
Cynigwyd ac eiliwyd bod y Cynghorwyr Loreen Lewis ac Anne Sizmur yn cael eu hethol ar yr Is-bwyllgor Betws yn ei Blodau. PENDERFYNWYD felly.

4. PROSIECTAU.
Cynigwyd ac eiliwyd bod y Gadeiryddes a'r Cynghorwyr Arnallt James, Loreen Lewis, Menna Roberts, June Gunter ac Annette Price yn cael eu hethol ar yr Is-bwyllgor Prosiectau.
PENDERFYNWYD felly.

5. IAWNDERAU FFYRDD.
Cynigwyd ac eiliwyd bod y Cynghorwyr Arnallt James, Richard Howell ac Anthony Richards yn cael eu hethol ar yr Is-bwyllgor Iawnderau Ffyrdd.
PENDERFYNWYD felly.

8.CYNRYCHIOLWYR I WASANAETHU AR GYMDEITHASAU ALLANOL.
Penderfynwyd fel a ganlyn:-

1. Heddlu Dyfed Powys; Pwyllgor Ymgynghorol Cymuned Dinefwr.
Cynghorwyr Carwyn James, Betsan Jones, Anne Sizmur ac Annette Price.

2.LIG.

Y Gadeiryddes a'r Cynghorwyr Loreen Lewis a Menna Roberts.

3. Canolfan Teuluol Betws.
Y Gadeiryddes, y Cynghorwyr Loreen Lewis, Menna Roberts ac Annette Price.

4. Grwp Cynghorau Lleol Dyffryn Aman.
I gadarnhau.

5. Canolfan Gynghori Dyffryn Aman.
I gael ei benderfynu ar 01 i'r Ilys achos orffen.

6. Un Llais i Gymru.
Y Cynghorwyr Anne Sizmur, Carwyn James a Menna Roberts.

7. Ammanford Twinning Association
I gadarnhau.

8. Local Health Board
Y Cynghorwyr June Gunter ac Annette Price.